# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 170(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Sicrhau Treth Gyngor Decach

(30 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gofal Sylfaenol - Tynnwyd yn ôl

(0 munud)

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar y Gwerthusiad o’r Cod Ymarfer Awtistiaeth a Niwrowahaniaeth

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Data ar Leoliadau Tomenni Glo

(30 munud)

## 7 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Hawliau Plant

(30 munud)

## 8 Datganiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Dileu TB Buchol

(30 munud)

## 9 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cymraeg 2050: Adroddiad Blynyddol 2022 i 2023

(30 munud)

## 10 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Anghenion Seilwaith Trawsyrru Trydan Cymru ar gyfer Sero Net

(30 munud)

## 11 Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023

(15 munud)

**NDM8399** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2023.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth

## 12 Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023

(15 munud)

**NDM8398** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Hydref 2023.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

**NNDM8401** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy’n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu’r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8400 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Tachwedd 2023.

## 13 Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023

(15 munud)

**NNDM8400** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2023.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 14 Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

(5 munud)

**NDM8402** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) Adrannau 1-20;

b) Atodlen 1;

c) Adrannau 21-22;

d) Atodlen 2;

e) Adrannau 23-30;

f) Teitl hir.

## 15 Dadl: Cyfnod 4 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

(15 munud)

**NDM8403** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3

## 16 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023